Prosiect Safle Arddangos

Safle Arddangos: GRAIG OLWAY, Brynbuga

Swyddog Technegol: Gwenan Evans

Teitl y Prosiect: Canolbwyntio ar y traed: lleihau cloffni mewn buches odro robotig

Cyflwyniad i'r prosiect:

Ar ffermydd llaeth, mae cloffni yn parhau i fod yn broblem iechyd fawr ac mae'n cael effaith negyddol ar iechyd cyffredinol y fuwch a'i chynhyrchiant. Mae gofyn rhoi dulliau newydd ar waith sy'n cwmpasu'r fferm gyfan i leihau effaith cloffni ar les a chynhyrchiant y buchod.

Yn Graig Olway, dynodwyd lleihau lefelau cloffni a gwella cyfforddusrwydd y fuwch fel dau o'r prif amcanion wrth wella lles y fuches laeth tra'n cynyddu cynhyrchiant hefyd. Oherwydd system odro wirfoddol y fferm, mae gwartheg cloff yn debygol o fynd at y robot lai o weithiau na buchod iach, felly, mae cloffni yn cael mwy o effaith ar y fuches na systemau eraill.

Nod y prosiect yn Graig Olway fydd gweithredu Rhaglen Traed Iach yr AHDB, ac asesu effaith gweithredu'r argymhellion allweddol ar gloffni a symudedd yn y fuches. Ar sail y data presennol am friwiau yn Graig Olway, disgwylir y bydd angen dull trin 'blitz' i ddermatitis digidol. Bydd monitro'r ymateb hwn yn creu'r astudiaeth achos gyntaf o'i math mewn buches odro robotig.

Amcanion y prosiect:

Prif amcan y prosiect yw pennu cywirdeb sgorio dermatitis digidol (DD). Ar ddechrau Ionawr 2020, rhoddwyd sgôr symudedd a sgôr DD wrth y cafn porthi i'r gwartheg i gyd (Ffig.1). Bydd y sgoriau yma wedyn yn cael eu cymharu â'r sgôr yn y crysh trimio traed (Ffig. 2) i bennu cywirdeb y technegau sgorio cloffni.

Ar ôl sgorio wrth y crysh trimio traed, bydd yr holl wartheg ag arwyddion o DD yn mynd trwy'r driniaeth 'blitz'; gan ddefnyddio triniaeth wrthfiotig arwynebol drwyddedig wedi ei ragnodi gan filfeddyg y fferm. Byddant yn cael eu hail-archwilio am ddau ddiwrnod olynol a bydd triniaethau dilynol yn cael eu rhoi pan fydd angen. Yn dilyn y driniaeth 'blitz' gychwynnol, bydd yr holl wartheg yn cael sgôr symudedd chwarterol i fonitro eu cynnydd. Bydd amserlen rheoli symudedd yn cael ei chreu wedyn i sicrhau bod pob agwedd ar reoli cloffni yn rhan o batrwm arferol y fferm.

Bydd effeithiolrwydd gweithredu rhaglen reoli cloffni wedi ei thargedu yn cael ei phennu gan y lefelau cloffni yn y fuches. Bydd mantais costau tymor byr gweithredu'r dull trin 'blitz' ar DD mewn buches odro robotig yn cael ei gyfrifo.

Dynodwyd cyfforddusrwydd y buchod hefyd fel maes y gellid ei wella sy'n effeithio ar gloffni, briwiau ar y gwadnau a DD yn benodol, felly, gwneir rhai newidiadau i'w rheolaeth a'u cyfforddusrwydd.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Lleihau % Cloffni i <10% (39% ar hyn o bryd)
- Lleihau % DD i <10% (39% ar hyn o bryd)

Ffigwr 1. Rhoi sgôr DD wrth y cafn porthi

Ffigwr 2. Rhoi sgôr DD yn y crysh trimio traed

LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:

9 Ionawr 2020
- Rhoi sgôr symudedd i'r holl wartheg a sgôr DD i'r holl wartheg wrth y cafn porthi

13 Ionawr 2020
- Yr holl wartheg yn cael eu gyrru trwy grysh trin traed a rhoi sgôr DD iddynt
- Y triniaethau cyntaf yn dechrau

14/15 Ionawr 2020
- Gwartheg gyda DD yn cael eu trin ar y diwrnod cyntaf a'u hail-archwilio a'u hail-drin os bydd angen

29 Ionawr 2020
- Cyfarfod tîm i greu 'Cynllun Gweithredu'

Mawrth-Mehefin 2020
- Rhoi sgôr symudedd i'r gwartheg i gyd bob pythefnos
- Cwblhau rhai agweddau ar y 'Cynllun Gweithredu' gan gynnwys tasgau i'w cwblhau yn y 6 mis cyntaf. (Gosod matresi newydd/cael gwared o 'Yorkshire boarding' oddi ar y sied)

Ionawr 2021
- Adolygiad o sgoriau symudedd, sgoriau DD a chofnodion trimio traed dros y 12 mis diwethaf